



Dinas a Sir Abertawe

Cofnodion y Bwrdd Pensiwn Lleol

Cyfarfod Aml-leoliad - Ystafell Gaerloyw, Neuadd y Ddinas/
MS Teams

Dydd Mawrth, 25 Gorffennaf 2023 am 10.00am

Yn Bresennol:

Cynrychiolwyr Cyflogwr
S A Knoyle

Cynrychiolwyr Aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol
I Guy
R Broad

Swyddog(ion)

| | |
|--------------------|---|
| Jeffrey Dong | Dirprwy Brif Swyddog Cyllid / Dirprwy Swyddog Adran 151 |
| Stephanie Williams | Prif Gyfreithiwr |
| Karen Cobb | Uwch-gyfrifydd |
| Jeremy Parkhouse | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |

Ymddiheuriadau am absenoldeb
Cynrychiolwyr Cyflogwr
C R Doyle

Cynrychiolwyr Aelodau'r Bwrdd Pensiwn Lleol
D White

1 Ethol Cadeirydd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2023-2024.

Penderfynwyd ethol Ian Guy yn Gadeirydd ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2023-2024.

(Bu Ian Guy yn llywyddu)

2 Ethol Is-gadeirydd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2023-2024.

Penderfynwyd penodi David White yn Is-gadeirydd ar gyfer Blwyddyn Ddinesig 2023-2024.

3 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, datganwyd y buddiannau canlynol: -

Datganodd y Cynghorydd S A Knoyle, Rosemary Broad ac Ian Guy fuddiannau personol yn yr agenda gyfan.

Datganodd Karen Cobb, Jeff Dong, Jeremy Parkhouse a Stephanie Williams fuddiannau personol yn yr agenda gyfan.

4 Cofnodion.

Penderfynwyd cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod y Bwrdd Pensiwn Lleol a gynhaliwyd ar 19 Ebrill 2023 fel cofnod cywir.

Nodwyd - Roedd y Cadeirydd yn falch o gyhoeddi bod Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe wedi cyrraedd y rhestr fer ochr yn ochr â chronfeydd LGPS eraill sy'n llawer mwy (Manceinion Fwyaf, Lothian a De Swydd Efrog) yng Nghronfa Bensiwn y Flwyddyn 2023 CPALI > £2.5bn gyda'r gwobrau'n cael eu cyhoeddi ar 14 Medi 2023.

Roedd yr enwebiad yn seiliedig i raddau helaeth ar enillion buddsoddi haen uchaf tabl y gynghrair LGPS yn y 3 blynedd hyd at 31/3/2023, lle Abertawe oedd y gronfa LGPS yn y safle cyntaf, ochr yn ochr â'r gwaith parhaus i weithredu ei strategaeth fuddsoddi sero net ar gyfer 2037.

5 Cynllun Archwilio 2023 - Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe.

Cyflwynodd Jeff Dong, Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151, ar ran Archwilio Cymru, Gynllun Archwilio Cymru 2023 – Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe.

Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r meysydd a'r dull gweithredu lefel uchel y byddai Archwilio Cymru yn eu mabwysiadu yn ystod 2023 i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol a newidiadau mewn dull gweithredu mewn perthynas â'r ISA 135 newydd ei gyflwyno fel archwilydd allanol ac i gyflawni ei rwymedigaethau o dan y Côt Ymarfer Archwilio i archwilio ac ardystio a oedd datganiadau cyfrifo'r Gronfa Bensiwn yn 'wir ac yn deg'.

Bydd y cynllun manwl arferol yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod Pwyllgor y Gronfa Bensiwn ym mis Medi 2023. Amlinellwyd mai diben y cynllun oedd nodi'r gwaith arfaethedig, pryd y byddai'n cael ei wneud, faint y byddai'n ei gostio a phwy fyddai'n gwneud y gwaith.

6 Adroddiad am doriadau.

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151 adroddiad 'er gywbodaeth' a oedd yn darparu manylion unrhyw doriadau a gafwyd yn y cyfnod hwn yn unol â'r polisi Adrodd am Doriadau.

Yn Atodiad A darparwyd manylion y toriadau a gafwyd ers cyfarfod diwethaf Pwyllgor y Gronfa Bensiwn ym mis Mawrth 2023. Nodwyd manylion y toriadau a'r camau gweithredu a gymerwyd gan reolwyr.

7 Cynllun Busnes Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) 2022-2026.

Darparodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151 adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn rhoi'r diweddaraf i'r Bwrdd ar Gynllun Busnes Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC). Gofynnwyd i'r Bwrdd hefyd nodi cynnydd Cynllun Busnes y flwyddyn gyfredol.

Amlinellwyd bod PPC, yn unol ag arfer gorau, wedi llunio cynllun busnes i lywio'i rhaglen waith ar gyfer y cyfnod 36 mis sydd ar ddod. Darparwyd y Cynllun Busnes ar gyfer 2023/2026 yn Atodiad 1.

8 Statws Corff Derbyn.

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151 adroddiad 'er gwybodaeth' a hysbysodd y Bwrdd Pensiwn Lleol o gais Mrs Bucket a oedd yn gofyn am statws corff derbyniedig i'r Gronfa.

Amlinellwyd bod Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe eisoes wedi derbyn nifer o gyflogwyr o'r fath i'r cynllun e.e. Tai Tarian, Hamdden Celtic. Roedd pob un o'r cyflogwyr hyn wedi cwblhau Cytundebau Derbyn gyda'r warant cyflogwyr noddi gysylltiedig.

Eglurwyd bod Ysgolion Uwchradd o fewn Awdurdod Lleol Abertawe yn gyrrff ymreolaethol sydd â'r disgresiwn i gomisiynu rhai gwasanaethau fel y gwelant yn dda. Yn dilyn ymarfer adolygu gwasanaeth gan YGG Tirdeunaw i wasanaethau glanhau ysgolion, roedd yr ysgol wedi penderfynu penodi Mrs Bucket (Gwasanaethau Glanhau Masnachol) i ymgymryd â'r gwasanaethau glanhau yn yr ysgol. Darparwyd y gwasanaethau glanhau hyn yn flaenorol gan Gyngor Abertawe dan gytundeb lefel gwasanaeth. Darparwyd taflen ffeithiau ar Mrs Bucket yn Atodiad A.

O dan amodau'r contract, trosglwyddwyd y trefniadau cymwys presennol dan drefniadau TUPE o'r cyflogwr presennol, Cyngor Abertawe, i Mrs Bucket. Er mwyn cadw hawliau pensiwn yr aelod o staff a drosglwyddwyd, cynigiwyd hefyd roi statws Corff Derbyniedig i Mrs Bucket yng Nghronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe a'i fod yn cael ei roi ar sail cynllun caeëdig, i gynnwys yr aelod o staff a enwir yn Atodlen 1 y cytundeb derbyn yn unig.

Nodwyd y byddai'r cytundeb derbyn yn ei gwneud yn ofynnol i'r bond indemniad gofynnol neu'r warant cyflogwr noddi gael ei sicrhau gan y cyflogwr noddi sef Cyngor Abertawe. Byddai'r Awdurdod Gweinyddu hefyd yn cynnal asesiad risg priodol o'r corff derbyniedig, Mrs Bucket, fel rhan o'r Cytundeb Corff Derbyn.

(Cafwyd saib yn y cyfarfod am 11:00 ac ailymgynnullodd am 11.05 a.m.)

9 Adnoddau i fod yn barod ar gyfer y Dangosfwrdd Pensiynau.

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151 adroddiad 'er gwybodaeth' a hysbysodd y Bwrdd ynghylch y penderfyniad i sicrhau bod gan Is-

adran Gweinyddu'r Gronfa Bensiwn adnoddau priodol i fod yn barod ar gyfer y Dangosfwrdd Pensiynau.

Rhodddwyd y cefndir i'r Bwrdd ynghyd â manylion ynghylch y dangosfwrdd pensiynau a'r camau gweithredu yr oedd eu hangen i fod yn 'barod ar gyfer y dangosfwrdd'.

Ychwanegwyd er mwyn bodloni'r gofynion parodrwydd ac integreiddio a fynnir gan y broses o roi dangosfwrdd pensiynau'r LGPS ar waith ar gyfer Cronfa Bensiwn Dinas a Sir Abertawe, y cytunwyd i benodi 1 Swyddog Cyfathrebu a Hyfforddiant Cynorthwyol, gyda chyfanswm y costau (gan gynnwys argostau) yn £34,093. Amlinellwyd cylch gwaith y swydd hefyd.

10 Gwahardd y cyhoedd.

Gofynnwyd i'r Bwrdd wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem(au) f/busnes a nodwyd yn argymhelliad/ion yr adroddiad ar y sail ei bod/eu bod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodir ym mharagraff gwahardd Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitem(au) f/busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y bwrdd brawf budd y cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes lle'r oedd prawf budd y cyhoedd yn berthnasol fel a nodir yn yr adroddiad.

Penderfynwyd gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitemau busnes canlynol.

(Sesiwn Gaeëdig)

11 Diweddariad ar Bartneriaeth Pensiwn Cymru (PPC).

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151 adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn ceisio rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd Pensiwn Lleol am gynnydd a gwaith Partneriaeth Pensiwn Cymru (PPC).

12 Diweddariad ar y Cynllun Busnes/Strategaeth Buddsoddi.

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151 adroddiad 'er gwybodaeth' a hysbysodd y Bwrdd o gynnydd rhai amcanion allweddol yn y cynllun busnes a'r strategaeth buddsoddi.

13 Adroddiad yr Ymgynghorydd Buddsoddi.

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151 adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn darparu'r Adroddiad Monitro Buddsoddi ar gyfer Chwarter 1 2023.

14 Crynodeb Buddsoddi.

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Cyllid/Dirprwy Swyddog A151 adroddiad 'er gwybodaeth' a oedd yn cyflwyno'r gwerthusiad o asedau a'r perfformiad buddsoddi ar gyfer y chwarter, y flwyddyn a'r 3 blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.55am.

Cadeirydd